

## JENKINS, EVAN (1895 - 1959), bardd

**Enw:** Evan Jenkins  
**Dyddiad geni:** 1895  
**Dyddiad marw:** 1959  
**Rhiant:** Margaret Jenkins  
**Rhiant:** Thomas Jenkins  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** Dafydd Jones

Ganwyd 2 Mai 1895, yr ieuangaf o 8 o blant Tomos a Marged Jenkins, Tynewydd, Ffair-rhos, Ceredigion Mwynwr oedd ei dad a gerddai'n ôl a blaen i fwynfeydd plwm y fro, gan amaethu ei dyddyn yn ei oriau hamdden. Addysgwyd Evan yn ysgol elfennol Pontrhydfendigaid, lle y derbyniwyd ef yn 1901. Yn Hydref 1909 aeth i ysgol uwchradd Tregaron, ond ni chofnodir amser ei ymadawiad. Methodd basio'r arholiad meddygol i fynd i'r fyddin yng nghyfnod Rhyfel Byd I ac ymddengys iddo fod yn gweithio mewn ffatri cad-ddarpar. Aeth i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth yn 1919 a graddiodd yn B.A. yn 1921. Cofnodir yn *Cofiant Idwal Jones* gan *D. Gwenallt Jones* iddo, gyda Philip Beddoe Jones, gyfansoddi cywyddau ymryson pan oeddynt yn aelodau o ddosbarth *T. Gwynn Jones*. Bu'n dysgu am gyfnod yn ysgolion Taliesin a Llanifhangel-y-Creuddyn. Bregus oedd ei iechyd, ac nid oedd gwaith ysgol yn dygymod ag ef. Felly cymerodd swydd ysgrifennydd Undeb Cymdeithasau Cyfeillgar Ceredigion yn 1924, a daliodd hi tan 1948.

Ef oedd prif symbylydd yr egni barddol yn ardal Ffair-rhos. Yr oedd yn aelod o dîm ymryson beirdd Ceredigion. Enillodd gadair Eisteddfod y De, Treorci, ddwywaith, coron Eisteddfod Môn, a gwobrau am delynegion, englyn, soned a chywydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol Pan briododd ei chwaer olaf o'r hen gartre aeth i fyw gyda hi a'i phriod yn Ffynon Fawr. Rhyw flwyddyn cyn ei farw symudodd eto i gartref ei ddwy chwaer ym Minawel, ac yno, ar 2 Tachwedd 1959, y bu farw. Claddwyd ef ym medd ei frawd John yn Ystrad Fflur. Cyhoeddwyd ei gasgliad buddugol o delynegion yng nghyfrol *Barddoniaeth a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd*, 1938, 108-18. Golygwyd a threfnwyd detholiad o'i ganeuon gan *T. Llew Jones* dan y teitl *Cerddi Ffair Rhos* (1959).

### Awdur

Dafydd Jones, (1907 - 1991)

### Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Evan Jenkins](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q9346589](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.